# Y Talwn



## Beth yw e?

- Adeiladwyd y Talwrn yn iard yr Hawk and Buckle Inn, Dinbych, yn yr ail ganrif ar bymtheg.
- Fe'i defnyddiwyd, wrth gwrs, ar gyfer ymladd ceiliogod - gweithgaredd treisgar a chreulon dros ben yn ôl ein safonau ni heddiw.



## Pwy oedd yn ei ddefnyddio?

- Roedd ymladd ceiliogod yn weithgaredd poblogaidd gyda phob dosbarth cymdeithasol, a byddai pobl yn gamblo eu harian ar eu hoff geiliogod. Gornest oedd y 'Frwydr Frenhinol' lle byddai nifer o geiliogod yn ymladd yn erbyn ei gilydd. Droeon eraill byddai gornest rhwng dau geiliog, gyda'r enillydd yn mynd ymlaen i wynebu'i wrthwynebydd nesaf.

## Ffeithiau difyr

- Mae'r adeilad yn grwn ac mae ganddo do gwellt a deg agoriad i adael y golau i mewn.
- Roedd ymladd ceiliogod yn boblogaidd iawn yng Nghymru nes iddo gael ei wahardd ym 1849.
- Roedd y ceiliogod yn cael eu bridio a'u hyfforddi i ymladd, a byddent yn bwyta deiet arbennig. Byddai rhai perchnogion yn rhoi dŵr sanctaidd drostynt, a byddai rhai ceiliogod yn gwisgo swyndlysau. Yn aml byddent yn gwisgo sbardunau a fyddai'n anafu ac efallai'n lladd eu gwrthwynebwyr.
- Dychmygwch pa mor swnllyd fyddai'r talwrn wedi bod petasai pawb yn gweiddi dros eu hoff geiliog!

## Am ragor o wybodaeth?

- Ewch i weld sbardunau a ddefnyddiwyd i ymladd ceiliogod yn Oriel 1.